



Cyfarchion y Nadolig

I'r Enaid Hoff Cytun

Mae gofal yn ei galon, a'i rodd hael
i'r ddwy sydd mor dirion,
llafur maint tywod Llifon,
un o wŷr da mwya' Môn.

Dylan

Cyfarchion yn 80 deg

I Islwyn nad ydyw 'iwsles' – un gair
Ar ddydd gŵyl yn gynnes
i'r dyn wyth deg, un neges:
o na bawn i'n byw yn nes.

Mererid

Dathlu Pen Blwydd yn 80 oed

Mor gry' ym mhob dyhead, - i dalwrn
neu'n deulu'n ymroddiad;
Y maeth hael, fel mam a thad
yn euro lles Angharad.

John Meirion

I Dafydd yn Bedwar Ugain

Y gwyliau haf a Dafydd – ar ei focs,
Cryf ei wên dafotrydd;
Nid aiff yn hen; nid gwen gudd
Yw gwên pedwar ugeinydd.

Myrddin

I Islwyn yn 80 oed

Mae Bargoed yn dy oed di – Angharad
yng nghaer dy farddoni;
Wyt frenin, wyf afr heini
Suzanne yw'n brenhines ni.

Aneirin Karadog

Pen Blwydd Hapus

80

Roedd Dafydd Islwyn yn dathlu ei ben blwydd yn 80 ganol mis Tachwedd. Mynegodd y beirdd eu llongyfarchiadau mewn modd priodol. Yn ogystal â'r saith englyn derbyniodd Islwyn bron i hanner cant o gardiau.

Hoffai ddiolch i'w holl ffrindiau am eu dymuniadau da.



Islwyn gyda T.Llew Jones, ei arwr, a Hywel Teifi

Mab y Go'

Gefail oedd Cymru gyfan – un folawd
o efeiliau bychan;
I fab y gof bu y gân
A'i heinionau yn ei anian.

Idris

Dafydd Islwyn yn 80 oed

Ar ryw stondin ddiflino yn y cof
fe wn y caf eto
i rifynnau'r hafau yno
a gwersi hael ei sgwrsio.

Dafydd John Pritchard

Llongyfarchiadau

Braf yw gallu cyhoeddi fod Nerys Todd wedi cyrraedd rhestr fer i ystyried pwy yw'r cefnogwr dysgu gorau yng Nghymru. Cyflwynwyd ei henw i ystyriaeth y beirniaid gan athrawon a ffrindiau Ysgol Gymraeg Cymraeg Caerffili lle mae Nerys yn gweithio. Mae'n un o 26 ymgeisydd a ddewiswyd allan o dros 100 o ymgeiswyr.



Yn ferch i Linda a Michael Charnell-White mae Nerys yn gyn-ddisgybl Ysgol Ifor Bach ac Ysgol Gyfun Cwm Rhymni. Mae hi'n fam i Alice a Jessica ac yn wraig i Mike a'r teulu'n byw yn nhref Caerffili. Graddiodd mewn Saesneg o Goleg Prifysgol Cymru, Abertawe, ac mae'n chwaer i Cathryn sydd nawr yn bennaeth y Gymraeg ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Mae Nerys yn boblogaidd iawn gyda phlant, athrawon a staff yr ysgol ac yn arweinydd effeithiol drwy ei gallu a'i hymroddiad. Dywedodd trefnyddion y gystadleuaeth "iddi wneud cyfraniad arwyddocaol i lwyddiant yr ysgol yn ystod y blynyddoedd diweddar gan arwain nifer o brosiectau sydd yn aml yn golygu mynd â'r plant allan o'r ysgol. Aeth yr adroddiad ymlaen i ddweud ei bod yn berson rhwydd i gydweithio â hi a phrofodd ei hun fel arweinydd ymhlith y staff a'r disgyblion.

Yn y rownd derfynol deallwn fod Nerys wedi cyrraedd y tri oedd ar y brig. Camp sylweddol iawn. Dywedodd ei phrifathro Mr Lynn Griffiths fod e a'i staff yn falch iawn o Nerys oedd wedi dod a chlod ac anrhydedd i'r ysgol a'r gymuned.

Cofio Mrs Rita Jenkins

Rita Jenkins



Iddi yn gefn oedd Cefni – â'i doniau
hyd einioes bu wrthi'n
nyddu mewn cân a gweddi
geiriau'r lôr a garai hi.

John Lloyd

Pythefnos cyn ei phenblwydd yn 90 oed bu farw Rita Ann Jenkins, priod y Parchedig Milton Jenkins. Cyfarfu'r ddau ym Mangor, adeg eu hyfforddiant colegol, a buont yn ffrindiau agosaf i'w gilydd ar hyd y 70 mlynedd ers hynny. Medrai edrych yn ôl ar ei theulu gyda balchder, gan sôn yn aml am un o'i chyndeidiau sef Rolant o Fôn a'r Parchg E. Cefni Jones. Ganwyd iddynt dri phlentyn, Sybil, Eira ac Iestyn, ac roedd y teulu yn bopeth i Rita. Dathlodd y fraint o fod yn Nana i chwech ac yn Nain i dri gorwyr.

Ar hyd y daith weinidogaethol bu Rita a Milton Jenkins yn bartneriaid delfrydol i'w gilydd, a bydd eglwys yn Glyn-nedd, Maesteg, Aberteifi a Chaerffili wedi cael modd i ddiolch am gariad y ddau tuag at eglwys a chymuned.


Athrawes oedd Rita ac roedd yn gwbl ymroddedig yn ei gwaith. Bu ei chyfraniad yn Aberteifi yn nodedig gan iddi hi a phrifathro'r Ysgol, sef Alun Tegryn Davies, lunio llu o gyflwyniadau a chaneuon nodedig rhyngddynt. Roedd ganddi ddawn greadigol fel bardd ac emynyddes, a gadawodd nifer o gyfraniadau llengar ar ei hôl. Bendithiwyd hi gyda greddf i greu cyfeillgarwch yn hawdd, ac i beri i eraill deimlo'n gyfforddus yn ei chwmni. Bydd llu ohonom ledled Cymru a thu hwnt yn ei chofio fel gwraig yn goferu o ddiwylliant a Chymreictod, yn llawn hwyl a hiwmor, ond yn bennaf oll o ffydd a defosiwn. Cydymdeimlwn gyda'i phriod a'i deulu yn eu colled, a diolchwn am y fraint o'i hadnabod.

Y Parchedig Denzil I. John

Mae'n anodd credu nad ydym wedi mynychu drama, cwrdd yn gymdeithasol, ymarfer a pherfformio gyda chôr, canu emynau yn y capel, na chwaith mwynhau mewn neuadd gyngerdd ers misoedd bellach, ac na chawn eto am sbel. Pleser felly i aelodau Merched y Wawr Cwm Rhymni oedd treulio orig hyfryd ym mis Tachwedd yng nghwmni y delynnores Eleri Darkins, a hynny mewn cyngerdd ar Zoom.

Un o sêr ein cwm ni yw Eleri. Cafodd ei haddysg yn y cwm cyn symud ymlaen a derbyn gradd dosbarth cyntaf mewn Cerddoriaeth yng Ngholeg y Brifysgol Bangor, lle astudiodd y delyn gydag Elinor Bennett. Yno, ac o dan anogaeth ei hathrawes, dechreuodd ymddiddori yn y delyn deires.

Esboniodd Eleri mai tair rhes o dannau sydd i'r delyn – y rhai allanol fel nodau gwyn y piano, a'r rhes ganol sy'n creu y meddalnodau a'r llonodau. Mae 84 tant i'r delyn ac mae'n anodd i'w thiwnio. Roedd Nansi Richards – 'Brenhines' y delyn deires – yn cymryd ei hamser mewn cyngerdd i diwnio, a byddai'n creu cryn gynnwrf!



Mam-gu Eleri welodd hysbyseb yn y Western Mail yn 1995 am delyn deires oedd ar werth. Telyn yw hi o wneuthuriad John Weston Thomas, Gwaelod y Garth gynt a oedd erbyn hynny wedi symud i Gas-blaidd, a gyda'r delyn honno y bu Eleri yn ein diddanu.

Cynhansail y Cymry gan Edward Jones oedd ei darn cyntaf - alaw a 24 o amrywiadau a phob amrywiad yn 8 bar o hyd. Roedd bysedd chwim Eleri yn gwneud i'r delyn ganu.

Tra ym Mangor, aeth Eleri i gymryd rhan mewn dosbarth meistr ym Mhlas Glyn y Weddw o dan arweiniad Robin Huw Bowen, a bu'n rhan o raglen deledu i S4C. Ei drefniant o *Clychau Aberdyfi* oedd ail ddarn Eleri – hoff ddarn ei Mam-gu, a'r darn enillodd y wobwr gyntaf iddi yng nghystadleuaeth Gwobr Goffa John Weston Thomas yn Eisteddfod y Bala a'r Cyffiniau yn 1997.

Yn 1999, aeth i'r Amerig i gymryd rhan mewn cyngherddau gyda Chôr Cymraeg De California, a threfniant ei arweinydd Michael J. Lewis oedd trydydd darn Eleri, sef *Llwyn Onn*. Yna, clywsom drefniant Robin Huw Bowen o *Meillionen*, sef dawns lys - atgof o'r tro y bu hi'n cyfeilio i Ddawnsyr Nantgarw.

Darn olaf Eleri oedd trefniant ac amrywiadau Nansi Richards o *Pant Corlan yr Ŵyn*.

Cawsom wledd yn ei chwmmi. Mae gan Eleri wefan ac mae'n werth darllen ei hanes - mae wedi ennill gwobrau di-rif ac wedi perfformio, astudio a dysgu ledled y byd. Gobeithio wir y cawn gyfle i dreulio mwy o amser yn ei chwmmi yn fuan.

Ewch ar ei sianel YouTube i'w clywed yn perfformio, ac mae ganddi gryno-ddisgiau ar werth – jyst y peth ar gyfer hosan Nadolig. Diolch, Eleri, am brynhawn bendigedig.

“Llanelly Art Pottery”

Allan Cook

Dyw Llanelly ddim wedi'i gamsillafu, dyma shwd oedden nhw'n sillafu Llanelly tan ganol y 1950au.



Mae pawb yn gwybod am lestri Nantgarw ac Abertawe, y llestri gorau a gynhyrchwyd erioed. Ond ar gyfer y cyfoethog roedd llestri Nantgarw ac Abertawe, y gorau yn cael eu peintio yn Llundain a Bryste. Ond roedd crochendai yn y de yn paratoi llestri ar gyfer y werin. Ynysmeudwy - yng Ngwm Tawe - Abertawe a Llanelly.

Agorwyd Crochenny y Cambrian ar gei Abertawe, o dan y Castell, yn 1764. Erbyn dechrau'r 1800au roedd teulu'r Dillwyn yn rhedeg y crochenny, a tua 1810 dechreuodd y crochenny wella safon y cynnyrch a


gwneud “creamware” o'r un safon ag roedd Wedgewood yn cynhyrchu yn Etruria, Swydd Stafford.

Ond doedd hyn ddim yn ddigon i Lewis Weston Dillwyn a ddaeth â William Billingsley a'i fab yng ngyfraith, Samuel Walker, i Abertawe wedi methiant cwmni Nantgarw am y tro cyntaf. Ond methiant ariannol oedd gwaith Billingsley a Walker yn Abertawe hefyd a gadawodd y ddau ar ôl rhyw dair blynedd.

Aeth y Cambrian yn ôl i gynhyrchu llestri o safon ond nid y “llestri gorau yn y byd”. Erbyn hyn roedd ail grochenny ar gei Abertawe, y South Wales Pottery. Yn 1838 prynodd y Cambrian grochenny South Wales a'i chau. Symydodd nifer o'r gweithwyr i Lanelli a chreu South Wales Pottery newydd o dan ofal William Chambers.



Llestri ar gyfer y werin a gynhyrchwyd yn Llanelly, y rhan fwyaf wedi'u hargraffu mewn glas ar wyn fel y plât “Colander” yn y llun.



Erbyn diwedd y 19eg ganrif y mudiad “Arts and Crafts” oedd ar y blaen mewn crefftwaith ym Mhrydain, ac aeth crochenny Llanelly ati i greu Llanelly Art Pottery, crochenwaith syml gydag arlunio llaw. Dau grefftwr sydd yn cael eu cofio. Sarah Jane Roberts (Auntie Sal), merch o Lanelli oedd yn peintio ceiliogod syml ar lestri. Ai Auntie Sal oedd Grandma Moses Lanelli?



Yr ail oedd Samuel Shufflebotham, ddaeth i Lanelli tua 1908 o Fryste. Roedd Bryste yn enwog am beintio blodau a ffrwythau yn steil Weyms Bay yn aber Afon Clyde. Ac am ffrwythau a blodau syml mae Shufflebotham yn enwog. Nid gwaith celf bwysig ond llestri ar gyfer y bobol leol.

Erbyn hyn mae gwaith Crochenny Llanelly yn hawlio prisiau uchel, yn arbennig gwaith Auntie Sal a Samuel Shufflebotham.

Mi fydd Allan Cook yn siarad am ddatblygiad llestri “Te, Tsieina a Thwyll” gyda Merched y Wawr Cwm Rhymni, ym mis Ionawr.

Cofio yn Nhabchwedd

Dyma wir Fis y Cofio yn ein calendr ni: ar y 11eg bydd miliynau ar draws y byd i gyd yn cofio'r rhai fu farw yn y ddau Ryfel Byd, ac mewn sawl rhyfel arall yn ystod yr ugeinfed ganrif. Ond yn gynharach yn y mis mae rhai ohonom yng Nghymru yn cofio hefyd y gweithwyr o byllau glo a ffwrnesi haearn cymoedd Gwent a Morgannwg a gerddodd trwy noson stormus Tachwedd 3ydd 1839. Yno i geisio ennill y bleidlais, dim ond i gwrdd â storom o fwled i flaen gwesty'r Westgate yng Nghasnewydd ar fore'r 4ydd.



Mae'r eglwys hefyd yn cofio'r meirw, ond ar ddiwrnod olaf mis Hydref, Diwrnod yr Holl Eneidiau yng nghalendr yr eglwys, a diwrnod cyntaf Tachwedd, Diwrnod yr Holl Saint. Mae cofio am y meirw wrth i'r flwyddyn ei hun farw mewn stormydd o wynt a glaw yn teimlo'n addas ac amserol.

A chofio rydyn ni ar y 5ed o Dachwedd hefyd wrth gwrs – “*Remember, remember the Fifth of November*” oedd yr hen siars ers i Guto Ffowc a'i gyd-gynllwynwyr gael eu darganfod yn gosod ffrwydron yn seleri'r Senedd ym 1605. Serch hynny, roedd tanau yn cael eu cynnau i gofio cyn y flwyddyn honno.



O 1558 ymlaen, cofio “Diwrnod y Frenhines”, Tachwedd 17eg, oedd y rheswm a roid dros y tannau mawr. Dyna'r diwrnod pan esgynnodd Elisabeth I i'r orsedd. Roedd hi'n olynu ei chwaer Gatholig, Mari Tudur, a mawr oedd y dathlu ymhlith ei phobl Brotestannaidd.

Ond roedd tannau'n llosgi ym mis Tachwedd am ganrifoedd cyn i Harri VIII dorri ei deyrnas i ffwrdd oddi wrth awdurdod y Pab. A chyn i'r cyntaf o'r Tuduriaid ennill y goron ar faes y gad yn Bosworth ym 1485. Ystyr wreiddiol y gair *tachwedd* yw “lladdfa”, ac mae'n air y byddai'r hen feirdd yn ei ddefnyddio'n aml wrth sôn am frwydr. Ond nid tymor i ryfela oedd Tachwedd: byddai'r milwyr gynt yn mynd allan ar eu cyrchoedd yn ystod y gwanwyn a'r haf. Roedd Tachwedd yn adeg lladd, serch hynny - lladd yr anifeiliaid na allai'r ffermwyr eu cadw (a'u bwydo) dros y gaeaf.

Wedi'r lladd, byddai'r cigyddion yn brysur, yn halltu a phiclo'r cig er mwyn ei gadw ar gyfer y misoedd llwm oedd o'u blaen. Ni fyddai dim yn cael eu gwastraffu - ond beth am yr esgyrn mawrion, pan oedd y cŵn (a'r llygod mawr) wedi cael pob darn o gig oddi arnynt? Yr arfer oedd eu llosgi - a dyna darddiad y gair Saesneg *bonfire*. Nid y gair Ffrangeg *bon* (“da”) sydd ynddo, ond yr hen air Saesneg cyfarwydd *bone*. Byddai gwastraff lladdfeydd Tachwedd yn cael eu llosgi'n ulw mewn tannau mawrion.

Mis y lladdfeydd oedd Tachwedd i'r Cymry yn y dyddiau gynt felly, a mis y cofio hefyd. Ond edrych ymlaen y dylwn ni wneud nawr: mae rhod y flwyddyn yn troi ym mis Rhagfyr, ac enw'r mis yn ein hatgoffa o hynny hefyd. Byr yw'r brif elfen yn y gair: dyma fis y diwrnodau byrion. A does dim mwy o ystyr - na hanes - iddo na hynny!

Dr Elin Jones

Sefydlwyd yr Eglwys yn y chweched ganrif. Ond yn ôl y stori, pan ddechreuon nhw adeiladu'r eglwys yn gyntaf, codwyd hi ar ddarn o dir a oedd yn edrych dros elli. Ond dyna le cynhelid seremonïau paganaidd ar un adeg, cyn i Gristnogaeth gyrraedd yr ardal.

A chafodd y bobl oedd yn codi'r eglwys broblemau oherwydd hyn.

Dechreuon nhw eu gwaith yn gynnar yn y bore, gweithio drwy'r dydd, tan nos, ac yna mynd adre wedi blino, ond yn fodlon ar ôl diwrnod da o waith. Fodd bynnag, y peth cyntaf a welsant pan gyrhaeddodd nhw'r bore wedyn i ddechrau eu gwaith eto, oedd yr holl waith roeddent wedi ei wneud y diwrnod o'r blaen wedi cwmpo, wedi cael ei ddinistrio. Felly roedd yn rhaid iddyn nhw ddechrau eto i godi'r waliau. Fe wnaethant weithio drwy'r dydd eto, a phan ddechreuodd dywyllu, gorffennon nhw am y diwrnod.

Ond digwyddodd yn union yr un peth y bore wedyn, roedd y waliau wedi cwmpo i lawr, wedi cael eu dinistrio eto. Ni allent ddeall pwy fyddai'n gwneud y fath beth. Ond doedd dim dewis 'da nhw, roedd rhaid iddynt ddechrau unwaith eto i godi'r waliau. Ond y tro'ma ar ôl gorffen eu gwaith am y dydd, penderfynon nhw gadw llygad ar eu gwaith drwy'r nos. Yn oriau mân y bore fe glywsant lais a oedd fel petai'n dod o'r awyr yn dweud wrthynt am beidio codi'r eglwys yn y lle cafodd seremonïau paganaidd eu cynnal. 'Ewch is y llwyn' meddai'r llais. Felly, penderfynon nhw gefnu ar y gwaith roeddent nhw wedi'i wneud a chodi'r eglwys yn is i lawr. Ar y mynydd is y llwyn. Yn union le mae'n sefyll heddiw.



Ond y stori dw i'n ei hoffi ydy bod yr eglwys i fod i gael ei chodi'n uwch i fyny o'r lle mae'n sefyll heddiw. Ond roedd un o'r offeiriaid a oedd yn gyfrifol am adeiladu'r eglwys wedi blino'n lân yn cludo'r cerrig. Stopiodd i orffwys ar ei ffordd lan y bryn, a phenderfynodd ei fod wedi cael digon, doedd e ddim yn gallu brwydro ymhellach lan y bryn. Meddylodd, mae'r lle hwn yn ddigon da i'r eglwys. Felly, dywedodd wrth ei ffrindiau, 'Mae'r lle'ma yn addas, byddwn yn codi'r eglwys yma ar y mynydd is y llwyn.'

O amgylch yr eglwys, fel pob hen eglwys, mae nifer o goed ywen a dywedir bod un ohonyn nhw o leiaf fil pum cant o flynyddoedd oed. A heb fod ymhell o'r eglwys mae twmp Mwnt a Beili, o'r enw Twyn Tudor. Ond yr unig beth ydy, does neb yn gwybod unrhyw beth amdano, maen nhw'n dweud iddo gael ei godi yn syth wedi i'r Normaniaid gyrraedd yma, er mwyn amddiffyn y tir roeddent wedi'i orchfygu.

Ac wrth gwrs mae llawer o storïau am y twmp. Mae'r eglwys wedi'i chysegru i Sant Tudur, a dywedir ei fod yn dyddio o'r 5ed ganrif. Yn ôl y stori, tywysog Cymreig oedd Sant Tudur a daeth e i'r ardal hon i fyw mewn heddwch fel meudwy. Daeth e'n bregethwr ac yn genhadwr, a throdd yr ardal tuag at Gristnogaeth, ac ar ôl iddo farw, claddwyd e, a chafodd y twmp ei roi dros ei fedd. Mae stori arall yn dweud bod milwyr Rhufeinig wedi'u claddu dan y twmp, un arall yn dweud bod 'na drysor yna, ac wrth gwrs mae stori bod rhyfelwr Celtaidd dewr wedi'i gladdu yno.

Ac yn ôl ni'r plant a oedd yn byw ym Mhen-Twyn-Mawr pan o'n i'n fachgen, bedd rhyfelwr Celtaidd dewr oedd. A phetai unrhyw un yn halogi ei fedd byddai'n cael ei daro yn syth gan fellten.

Y Tair Chwaer galwyd y tair eglwys yn yr ardal, Mynyddisllwyn, Bedwellte a Gelligaer. Maen nhw yng ngolwg ei gilydd, felly 'beacon churches' oeddent nhw a phe bai rhywun yn ymosod ar un ohonynt byddai hi'n gallu rhybuddio'r ddwy arall o'r perygl.

Dinca Fala Dr Elin

Y mis yma.....

Casserole de boeuf à la mode de Preswylfa, Rhymni

Dros y blynyddoedd rwy wedi darllen sawl rysait am gaserôl cig eidion, ond dwi erioed wedi gweld un sy'n debyg i un 'mam – na blasu un cystal, er bod ei dull hi o fynd ati yn ymddangos mor rhyfedd.

Os oes chwant arnoch i roi cynnig arni, mae angen sleisiau weddol fawr o gig eidion (tua 250g i bob person). Byddai mam yn ychwanegu cwpl o arennau oen hefyd, ond dyw hynny ddim at ddant pawb. Yn y dyddiau diwylliedig hyn, rwy'n ychwanegu madarch weithiau, ond nid ar y cychwyn.

Rhowch y cig fel ag y mae mewn sosbanaid o ddŵr oer, a rhowch hwnnw i ferwi. Wrth iddo dwymo, fe ddaw ewyn i wyneb y dŵr, ac mae angen tynnu hwnnw i ffwrdd yn ofalus gyda llwy. Yna, pan fydd y cyfan yn mudferwi'n dawel, ychwanegwch wynwns wedi eu torri'n ddarnau (does dim angen iddyn nhw fod yn fân iawn), a dewch â'r cyfan nôl i ferwi eto. Gadewch iddo fudferwi am ryw awr neu ragor.

Pan mae wedi ei ddigoni, rhowch ddwy neu dair llwyaid fawr (llwy fwrdd) o gan (= brawd) mewn basn. Tynnwch beth o'r hylif o'r sosban, gadael iddo oeri, ac yna cymysgwch e gyda'r can i wneud past eitha trwchus – ond llyfn: dim lympiau, os gwelwch yn dda.

Y cam nesaf yw defnyddio hwnnw i dewhau'r hyn sydd yn y sosban - heb iddo droi'n lympiau. Y ffordd orau i wneud hynny, o 'mhrofiad i, yw tynnu cymaint â phosibl o'r hylif sydd yn y sosban, a'i gymysgu'n raddol gyda'r past. Yna arllwyswch y cyfan 'nôl dros y cig, a chynyddu'r gwres dan y sosban yn raddol, gan ofalu ei droi'n gyson. Dyma'r adeg i ychwanegu halen a phupur yn ôl eich arfer (roedd pawb yn ein tŷ yn hoffi cael digon o bupur yn hwn).

Nawr fe allwch ychwanegu'r madarch, a rhoi hanner awr fach arall i'r caserôl fudferwi. Ond er bydd y madarch yn benthyg rhyw faint o liw iddo, fe fydd y "caserôl" yn dal i edrych yn ddigon annymunol – rhyw lwyd diflas y golwg - nes i chi ychwanegu'r lliw hudol a ddaw allan o'r fotel fach frown...

A dyna ni! Os ydych am fod yn soffistigedig, gallwch roi'r cyfan mewn powlen caserôl go iawn, rhoi clawr crwstyn arno, a'i roi mewn ffwrn boeth am hanner awr – ac yna ei weini gyda steil a glasaidd o win coch. Neu fe allwch ei arllwys yn ddiseremoni dros blataid o datws stwnsh a llysiau, a'i fwyta yn y dull traddodiadol gyda disglaid o de – ond beth bynnag fydd y steil, yr un ddylai fod ei flas: bendigedig!

DS: Magwyd 'mam mewn tŷ o'r enw Preswylfa, yng nghanol Rhymni, a dysgodd goginio bwyd yno tra'n helpu ei mam i fagu ei phedwar brawd bach. Rwy'n credu iddi ddysgu sut i goginio yn bennaf oddi wrth ei mam-gu, oedd yn byw gyda nhw, a'r forwyn oedd hefyd yn rhannu'r tŷ... dros ganrif yn ôl bellach.




*Lluniau caserôl cig eidion
Y defnyddiau crai: cig a dŵr*

Disgynyddion Tŷ Vaughan, y Twyn, Caerffili

Aled Betts

Yn yr erthygl flaenorol soniwyd am Alfred George Jenkins yn dod â'r enw 'Energlyn' i Seland Newydd yn y 1840au. Mae'r erthygl hon yn taflu golwg ar ei wreiddiau yng Nghaerffili ac yn ychwanegol gweler darganfyddiadau diddorol am ei deulu.



Roedd mam Jenkins, Elizabeth Vaughan (1783-1835), yn hannu o Gaerffili. Ei thad oedd William Vaughan (1749-1811), masnachwr adnabyddus oedd yn byw ar y Twyn. Cymaint oedd ei barch fel y roddwyd ei gyfenw ar ei dŷ, Tŷ Vaughan, tirnod enwog yng Nghaerffili. Symudais i Gaerffili yn y 70au a chollais ddymchwel Tŷ Vaughan ym 1970 a oedd drws nesaf i Barclays.

I nifer ohonoch, roedd Tŷ Vaughan yn adnabyddus fel swyddfa ymgyrch Plaid Cymru yn isetholiad 1968.

Rhyddhawyd ffilm o'r isetholiad gan y BFI yn ddiweddar:

<https://player.bfi.org.uk/free/film/watch-1966-dulyn-gwynfor-steddfod-1968-is-etholiad-caerffili-1966-online>

Nid oedd masnach Tŷ Vaughan wedi ei gyfyngu i'r galw domestig dyddiol. Cyflenwodd offer i lofeydd Craig yr Allt, Waunwaelod a Mynydd Caerffili a siarcol i weithfeydd Pentyrch. Gŵr busnes a bonheddwr oedd William Vaughan a hefyd ymddiriedolwr i Aldworth School Endowment Trust, ysgol yn Hampshire a ddarparai addysg i fechgyn o gefndiroedd difreintiedig. Câi Vaughan ei ystyried yn un o hoelion wyth cylch Eglwysilan a Bedwas. Disgrifiwyd ei wraig, Barbara, ar ei marwolaeth ym 1808, fel 'ffrind gweithgar a buddiol i'r tlodion'. Bu farw William ym 1811 a'i gladdu yn Eglwys Sant Martin. Mae ganddo gysylltiadau â theulu Goodrich o Eneu'r-glyn, gan i'w ewyllys gael ei thystio a'i llofnodi gan Elize Goodrich.

Yn ychwanegol, mae hanes diddorol iawn i blant eraill William Vaughan, brodyr a chwiorydd felly i Alfred George Jenkins. Priododd y ferch, Eliza Jenkins (1810-1886) â William C. Webb (1813-1870), maer Casnewydd, 'magnate' llongau a masnachwr i Gwmni Glo Tredegar. Priododd un mab, William Vaughan Jenkins (1811-1876), cyfrifydd, i deulu o gyfrifyddion Bryste, y Fletchers. Daeth eu mab, Frederick Augustus Jenkins (1840-1919) yn 'un o'r cyfrifywyr cyhoeddus mwyaf adnabyddus ac uchel ei barch ym Mryste a Gorllewin Lloegr'. Bu farw'r mab arall, Herbert Stanley Jenkins (1874-1913) o deifffoid tra oedd yn Genhadwr Meddygol y Bedyddwyr yn Tseina. Ysgrifennwyd cofiant iddo - '*Herbert Stanley Jenkins, M.D., F.R.C.S., medical missionary, Shensi, China*' a thyst i'w briodas oedd Timothy Richard, cenhadwr enwog yn Tseina.

Mae hanes hynod ddiddorol yn perthyn i'w mab iau, Richard Lewis Jenkins (1816-1883). Meddyg a ymfudodd i Awstralia ydoedd a sefydlodd ysbyty yn Woolomon. Symudodd i Sydney ac fe'i etholwyd i gynrychioli sedd Liverpool Plains a Gwydir yn Senedd New South Wales. Rhoddodd sylw brwd i faterion addysgol; lladmerydd dros addysg i bawb ydoedd.

Mab arall oedd Ebenezer Vaughan Jenkins (1820-1903), 'bonheddwr' a sylfaenydd Newport Freehold Land Society. Rhoddodd dystiolaeth yn erbyn y Siartwyr ym 1849 yn dilyn eu gorymdaith i Gasnewydd! 'Energlyn' oedd yr enw a ddewisodd ar ei gartref yn Rhydychen hefyd.



Richard Lewis Jenkins

Diddorol felly yw olrhain llwyddiant y Vaughaniaid, disgynyddion Tŷ Vaughan, sy'n ein tywys i Seland Newydd, Tseina ac Awstralia. Er mawr y cysylltiadau â Chaerffili, prin yw'r dystiolaeth o unrhyw wybodaeth o'r Gymraeg ac ychydig o sôn am Gymru yn yr ysgrifau coffa er iddynt drawsblannu'r enw Energlyn i wahanol gorneli o'r byd!

Un o fy mhrosiectau mawr eleni fu cyflenwi sied newydd sbon o'r radd flaenaf i fi fy hun. Rhaid i fi fynd i'r arfer o'i alw'n weithdy i fi mewn gwirionedd, oherwydd credaf fod 'sied' yn enw eithaf dibrisiol ar adeilad â chanddo botensial ar gyfer cymaint o grefftwaith creadigol o fewn ei waliau. Ond am y tro byddaf yn ei alw'n 'Y Sied'.

Ni fyddaf yn dweud wrthyh yr holl fanylion technegol, wedi'r cyfan beth sydd o ddiddordeb yw'r ffaith bod y sied yn mesur 9 troedfedd wrth 8 troedfedd. Mae iddo *do pent*; wedi'i orchuddio â byrddau tafod a rhigol; mae ganddo ddrws stabl sy'n agor tuag allan; dwy ffenestr; a chyflenwad trydan... .. Na! Byddaf yn hepgor yr holl bethau technegol hynny! Ond dywedaf wrthyh fod mainc gwaith coed wedi'i ffitio iddi; mainc gwaith metel; silffoedd a rheseli i'w storio; cwpwrdd offer; ac i gadw unrhyw dresmaswyr dieisiau i ffwrdd mae bariau haearn ar y ffenestri a golau diogelwch. A rheiddiadur i'm cadw'n gynnes ac yn glyd yn y gaeaf. Hefyd radio er mwyn i fi gael 'cerddoriaeth tra wy'n gweithio!'



Rwy'n hoffi fy sied. Rwyf wastad wedi hoffi sied. Fel bachgen ifanc treuliais awr ar ôl awr yn ein sied yn yr ardd gefn. Ac nid oedd hynny oherwydd nad oedd fy rhieni eisiau fi yn y tŷ. O na! Es i yna allan o ddewis! Nid oedd fy nhad yn grefftwr, yn fwy o *botsier* ... ond roedd yn eithaf da gyda'i ddwylo beth bynnag. Ac roeddwn i wrth fy modd yn ei wylion brysur yn gweithio ar y fainc wedi'i gorchuddio â phob math o ddarnau a darnau. Ac roedd y *last* ... arferai

dapio'i esgidiau arno. Nid wyf yn gwybod beth ddigwyddodd i'r last, ond mae'r *rasb* gen i o hyd y byddai fy nhad yn llyfnhau ymylon y lledr ar ôl ei drwsio gyda'r *sprys*. Roedd bob amser yn eu cadw nhw yn ei geg yn union fel y cryddion go iawn. A'r hyn a'm gwnaeth yn saer bach iawn oedd y Nadolig y cefais '*Jiwniwr Carpentry Cit*' ... nid oedd fy rhwystro ar ôl hynny!

Ac a oeddech chi'n gwybod bod cymaint o wahanol bethau y gellir defnyddio sied ar eu cyfer?

Nawr rwy'n hoffi ysgrifennu ...a dyna weithgaredd greadigol arall y gellir ei gwneud mewn sied ...ac mae nifer o awduron eraill o Gymru wedi manteisio ar y rhodfa hon hefyd...

...Ciliodd Roald Dahl o brysurdeb bywyd bob dydd i'w sied ardd fach, ei gwt ysgrifennu gostyngedig, er mwyn rhoi lle i'w ddychymyg grwydro. Mewn gwirionedd cafodd ei ysbrydoli i ysgrifennu yna ar ôl rhywbeth a welodd tra ar ymweliad â Thalacharn yn y 1950au ...gwelodd sied!

...Ar un adeg roedd Dylan Thomas yn byw yn Nhalacharn ac roedd ganddo sied yna ...ei sied ysgrifennu ... rwy'n gwybod oherwydd fy mod i wedi bod i Dalacharn a'i gweld! Fe wnes i sbecian i mewn trwy'r ffenest! Mae e'n ddim ond *siort dap* o'r Boathouse lle'r oedd yn byw. Yma, yn edrych dros aber Taf, dyma le cafodd ei ysbrydoliaeth i ysgrifennu llawer o'i brif ddarnau ... cyn mynd i lawr i *Brown's Hotel* gyda'i wraig Caitlin i gael lluniaeth hylifol ...a rhywfaint mwy o ysbrydoliaeth! Ac rwyf wedi bod yno hefyd!

...Mae cais cynllunio J. K. Rowling i godi sied, 'tŷ haf', yn ei gardd wedi'i gymeradwyo gan y *cownsil*. Tybed i beth fydd hi'n defnyddio ei sied?

...Mae gan Carlos Dante Ferrari, fy ffrind ysgrifennwr o Batagonia, sied a adeiladodd gan ddefnyddio ei sgiliau gwaith saer hunan-addysgedig. Nid hwn yw'r cysegr i ysgrifennu ynddo gan ai fod yn gwneud ei ysgrifennu wrth ei *escritorio* yn ei *despacho* yn ei *casa* ...ond felly gall gael *asado* pan mae'n bwrw glaw!

Byddaf yn gorffen nawr ...gan na allaf feddwl am ddim mwy i'w ddweud ... mae angen ysbrydoliaeth arnaf yn rhywle ...efallai y byddaf yn dod o hyd i rai yn Y Sied!

Geirfa

To pent
Potsier [Wenglish]
Last

Tapio [Wenglish]

Rasb

Sprys

Jiwniwr Carpentri Cit [Saesneg]

Siort dap [Wenglish]

Brown's Hotel [Saesneg]

Y Cownsil [Wenglish]

Escritorio [Sbaeneg]

Despacho [Sbaeneg]

Casa [Sbaeneg]

Asado [Sbaeneg]

To sy'n cynnwys un arwyneb ar oledf

Person sy'n gwneud pethau mewn ffordd ddi-grefft

Dyfais siâp troed ddynol a ddefnyddir gan grydd i lunio neu atgyweirio esgidiau

Trwsio esgidiau

Rathel - ffeil ar gyfer llyfnhau

Hoelion bach di-ben

Cit Jiwniwr Carpentri

Pellter byr

Gwesty Brown

Y Cyngor

Desg

Astudfa

Tŷ

Y dechneg a'r digwyddiad cymdeithasol o gael neu fynychu barbeciw



Sesiwn Grefft Nadolig
Christmas Craft Session

Prynhawn Gwener - Friday afternoon
Rhagfyr 11 December

£6

Fe wnawn bostio pecyn crefft atoch i chi gymryd rhan ar y diwrnod.
We will post a craft kit out for you to take part on the day.

Sesiwn dros Zoom - Session via Zoom

BWCIWCH CYN RHAGFYR 5ed - BOOK BEFORE DECEMBER 5th
bethanjones@mentercaerffili.cymru

Neges fideo gan Sion Corn
Video message from Santa

£3 / £5

Cofrestrwch cyn diwedd Rhagfyr 5ed i gael neges personol Gymraeg neu dwyieithog gan Sion Corn dros Whatsapp neu drwy ebost.
Register before the end of December 5th to receive your Welsh or bilingual personal message from Santa Clause over Whatsapp or email.

I gofrestru a talu ewch i/ To pay and register go to =
www.tocyn.cymru - find events- Fideo Sion Corn

bethanjones@mentercaerffili.cymru

Grefft Nadolig i blant
Children's Christmas Craft

2yp dydd Sadwrn - 2pm Saturday
Rhagfyr 5 December

Ymunwch a ni i greu crefft yn fwy dros Zoom, cysylltwch am y ddolen ac am fanylion y nwyddau bydd angen.
Join us to be crafty over Zoom, contact for the link and details of items you will need beforehand.

BWCIWCH CYN RHAGFYR 5ed - BOOK BEFORE DECEMBER 5th
bethanjones@mentercaerffili.cymru

Ffair Nadolig Rhithiol
Virtual Christmas Fair

Prynhawn Sadwrn / Saturday afternoon
Rhagfyr 5 December

Stondinau Stalls - Canu Singing - Creu torch Wreathmaking
Stori Nadolig Christmas Story - Grefft Craft - A mwy And more

Ar ein tudalen Facebook / Gwefan
On our Facebook / Website

www.mentercaerffili.cymru / Facebook - mentercaerffili
bethanjones@mentercaerffili.cymru

Colofn Dafydd Isgwyn



Wrth deithio o Bengam i Fleur de Lys mae rhywun yn cofio mai ond un frawddeg am y lle a gafwyd yn 'Crwydro Mynwy' 1958. 'Y lle nesaf ydyw Fleur de Lys neu'r 'Flower'; cynigwyd gwahanol esboniadau am draddodiad yr enw hwn.' Wrth adael Pengam ac i mewn i i Flower mae dau adeilad sy'n tynnu sylw, sef Neuadd yr Eglwys a'r 'Stiwt'.

Adeiladwyd Neuadd yr Eglwys yn 1902 a'r 'Stiwt' yn 1911. Neuadd yr Eglwys oedd pencadlys yr Hôrn Giard lleol yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Yn nyddiau cynnar y rhyfel roedd Prydain i gyd ar bigau'r drain gan fod yr Almaen yn dangos ei dannedd miniog. Yn ei sgysiau radio bradwrs oedd Lord Haw Haw wedi rhestru Bargod a'i gyffiniau fel targed posib i Hitler! Penderfynwyd felly wahardd traphont yr Hengoed. Roedd pawb oedd yn teithio ar droed neu mewn car yn gorfod aros i gael ei holi gan yr Hôrn Giard.

Un noson fe anwybyddodd un gyrrwr o Dwyn Fleur de Lys y gorchymyn i aros. O ganlyniad fe benderfynwyd tynnu ei sylw drwy saethu at ei gar. Yn anffodus, aeth y fwled i mewn drwy'r ffenest gefn y car a tharo'r gyrrwr a'i ladd.

Yn y Stiwt y bu'r chwaraewr snwcer o Dir y Berth, Doug Mountjoy, yn ymarfer. Mewn rhan arall o'r adeilad y bu'r bocsiwr Robbie Regan o Fargod yn ymarfer yn galed. Am flynyddoedd, o ddechrau pum degau'r hen ganrif i ganol y chwe degau, bu mynd ar glwb pêl-droed Fleur de Lys Welfare. Cysylltir o leiaf pedwar chwaraewr o'r ardal a chlybiau pêl-droed adnabyddus. Bu Cecil Joseph Davies ar lyfrau Charlton Athletic ganol y tri degau. Yn chwarae i'r clwb ar y pryd oedd Herbert Gwyn Turner, brodor o Rymni a chwaraeodd i'r Brithdir cyn symud i Lundain. Bu Brayley Reynolds yn chwarae i Gaerdydd ac Abertawe. Gwnaeth Jimmy Singer o Gefn Hengoed enw iddo'i hunan yn chwarae i Birmingham City.

Pan oedd yn chwe mis oed fe symudodd rhieni Gareth Williams o Hendon, Llundain, i Flower tua mis Mawrth 1942. Yn ddeunaw oed fe arwyddodd ef i Gaerdydd. Ar ôl chwarae cant chwe deg un gêm a bod yn gapten y clwb arwyddodd i Bolton Wanderers a bu yno am dair blynedd cyn ymuno â Bury. Disgrifiwyd pêl-droediwr mewn dau englyn yn 'Awen Dinbych' yn 1964. Gwelodd R. W. Roberts ef:

Ar y maes y grymusa, - un o dîm
A wna dorf yn danchwa:
Gyda'r bêl fel awel â
Hoenus gwawr, yna sgoria.

Meddai Huw Ifor Jones amdano:

Ei allu nid yw'n hollol – yn ei draed
Yn y drin orchestol;
Un sydyn, ymosodol
A'i fryd i gyd ar y gôl.

Rhybudd oedd ganddo yn ei englyn 'Y Bêl Droed':

Y bêl a'i gôl rhwng dau bolyn, - am elw
Mae myrdd yn ei dilyn;
O groen llo yn grwn ei llun,
Na wneler hon yn eilun.

Ffurfiwyd Cymdeithas Pêl-Droed Wrecsam yn 1876. Sbardunodd hyn bwyllgorau eisteddfodau lleol led led Cymru i osod "Y Bêl Droed" yn destun englyn. Orlwyn oedd yn fuddugol ym Mirch Grove 1893:

Dyfais a wnaeth y diafol – o ledr yw
Y bêl droed felltithiol,
I ddenu myrdd hyd ffyrdd ffôl
Ato'n nes i'r tân ysol.

Gochelwn, gwyliwn i gyd, - rhag ei hud
Pleser gau, gwenwynllyd,
Yr hen bêl, arwain y byd
I rôl fawr fflamiau'r eilfyd.

Ioan Brothen (1868 -1940) yr englynwr o Flaenau Ffestiniog a enillodd gystadleuaeth yr englyn yn Nhrawsfynydd yn 1986: 'Y Bêl Droed'.

Un gron ei llun yn y llaid - o flaen
Torf fileinig danbaid
Yw y bêl a hon heb baid
Yw hoff eilun y ffyliaid.

Cyfarchion atoch i gyd. Tipyn bach o hanes Cymru y tro yma. Pam fod mis Rhagfyr yn bwysig yn hanes Cymru?

Ddydd Gwener, Rhagfyr 11 1282, lladdwyd Llywelyn ap Gruffudd, neu Llywelyn ein Llyw Olaf, y Cymro olaf i gael y teitl 'Tywysog Cymru'. Lladdwyd e mewn lle o'r enw Cilmeri, yn agos i Lanfair-ym-Muallt, ac mae cofeb yno i ddangos y fan. Gyda'i farwolaeth e, daeth gobaith Cymru i wrthsefyll y Normaniaid i ben.

Yn y gerdd yma, mae Gerallt Lloyd Owen yn ymweld â Chilmeri ac yn siarad am ei deimlad o ryfeddod o fod mewn lle ble digwyddodd rhywbeth pwysig ganrifoedd yn ôl. Ydych chi wedi cael teimlad tebyg mewn lle hanesyddol tybed? Mae'r bardd yn dychmygu sut y bu Llywelyn farw, ac yn dweud bod cofio amdano yn bwysig, yn y gorffennol, nawr ac yn y dyfodol.

Cilmeri

Fin nos, fan hyn
Lladdwyd Llywelyn.
Fyth nid anghofiaf hyn.
Y nant a welaf fan hyn
A welodd Llywelyn.
Camodd ar y cerrig hyn.



Fin nos, fan hyn
O'r golwg nesai'r gelyn.
Fe wnaed y cyfan fan hyn.
Rwyf fi nawr fan hyn
Lle bu'i wallt ar welltyn,
A dafnau o'i waed fan hyn
Fan hyn yw ein cof ni,
Fan hyn sy'n anadl inni,
Fan hyn gynnu fu'n geni.

cyfarchion : greetings

Llanfair-ym-Muallt : Builth Wells

dod i ben : come to an end

dychmygu : imagine

gelyn : enemy

anadl : breath (of life)

y tro yma: this time

cofeb : memorial

ei deimlad o ryfeddod : his feeling of awe

yn y gorffennol, nawr ac yn y dyfodol : in the past, now and in the future

ar welltyn : on the grass

gynnu : just now

lladdwyd : was killed

marwolaeth : death

dafnau di waed : drops of his blood

tywysog: prince

gwrthsefyll : resist

ganrifoedd yn ôl:centuries ago

cof : memory

Dathlu cariad sy'n adeiladu gobaith yn ystod yr Adfent

Apêl Nadolig Cymorth Cristnogol

Wel am flwyddyn a hanner! Rydach chi fel finnau'n ysu am weld cefn 2020 rwy'n siŵr. Ond er mor anodd y bu'r flwyddyn hon, mae gennym le i ddiolch a dathlu hefyd. Dathlwn y ffaith fod cymunedau Cymru wedi bod yn gefn i sawl aelod bregus wrth iddynt orfod hunan ynysu dros gyfnod y clo mawr. Dathlwn fod cariad cymdogol wedi bod yn fendith ddigymar mewn cyfnod o ofn.

Yn Apêl Nadolig Cymorth Cristnogol eleni, rydym am bwysleisio'r cariad hwn sy'n adeiladu gobaith yng nghanol byd o dywyllwch. Cofiwch am un a ddaeth i droi'r byd a'i ben i waered – nid trwy fygwth na chodi ofn, ond trwy garu heb gyfrif y gost iddo'i hun. A dyna'n union y cariad sy wedi ei amlygu yn ein plith ni eleni! Diolch i Dduw amdano.

Yr argyfwng hinsawdd yn Ethiopia



*Mekonnen a'i wartheg. Hawlfraint:
Cymorth Cristnogol/ Elizabeth Dalziel.*

I gymunedau eraill yn ein byd, her ar ben sawl her arall a fu'r Coronafirws. Dyna gymunedau yn Ethiopia, er enghraifft, sy'n dioddef yn enbyd gan effeithiau'r argyfwng hinsawdd. Mae bugeiliaid teithiol fel Mekonnen yn gorfod cerdded milltiroedd maith i chwilio am ddŵr i'w wartheg. Pan gyrhaedda afon a arferai lifo'n gryf, yr hyn a wêl yw gwely sych. Rhaid cloddio, felly, er mwyn cyrraedd y dŵr, a gall hynny fod yn fenter hynod beryglus.

Gyda help partner Cymorth Cristnogol, fodd bynnag, mae cymunedau wedi derbyn cefnogaeth i adeiladu pyllau cymunedol yn eu pentrefi. Golyga'r pyllau hyn nad oes raid i'r trigolion gerdded am oriau i nôl dŵr. Mae hyn yn gwneud gwahaniaeth mawr i fywyd pobl.

Trwy eich cefnogaeth chi, gallwn greu mwy o'r pyllau hyn a helpu cymunedau eraill i oroesi yn wyneb her fawr yr argyfwng hinsawdd. Ewch draw i'n gwefan i weld sut y gallech chi helpu: www.christianaid.org.uk/appeals/key-appeals/christmas-appeal

Carol Adfent newydd

Ymunwch gyda ni i ganu carol newydd ar Sul Cyntaf yr Adfent – 29 Tachwedd – 'Pan aned gynt mewn tlodi' – a dilynwch ein cadwyn weddi pob dydd trwy'r cyfnod.

Er bod eleni wedi bod yn llawn braw ac ofn, ni fu heb resymau i'w dathlu. Unwn i ddiolch am y cariad sy'n adeiladu gobaith, eleni fel ag erioed.



Urddas. Cydraddoldeb. Cyfiawnder. Cariad.

Llys Porth yr Eglwys, 3 Heol yr Eglwys, Yr Eglwys
Newydd, Caerdydd, CF14 2DX, Cymru

Jerry

Gareth W. Williams



Roedd Jerry, neu Jeremeia i roi ei enw llawn iddo, wedi dod yn dipyn o seren yn y swyddfa, a phawb a ddoi i mewn am ddweud gair neu ddau wrtho pan yn mynd heibio at ddesg Sarjant Amos. Eisteddai ar ei bolyn yn y gawell yn troi ei lygad at y sawl a fyddai'n mynnu ei sylw ac yn amlach na pheidio byddai'n ymateb yn ufudd i unrhyw air a gymhellid iddo ei ddweud ac yn dynwared acen a llais y siaradwr yn berffaith. Macaw oedd Jerry, i fod yn fanwl; gyda'i gefn, ei adenydd a'i gynffon hir yn las llachar, gwasgod felen danbaid am ei frest a sblashed o wyrdd yn gap. Roedd yn aderyn nobl iawn. Fasech chi ddim yn dweud ei fod o'n hardd fel y cyfryw; byddai trawiadol yn well disgrifiad ohono gyda'i wyneb gwyn, ei big fawr grwca a dwy lygad yn pefrio yn ei ben.

'Faswn i'n taeru bod y diawl yn dallt bob gair dw i'n ddweud,' meddai un o'r plismyn un diwrnod wrth blygu wrth y gawell gyda'i drwyn braidd yn agos i'r barau.

Roedd Jerry wedi troi ei ben yn y ffordd ddeallus yna oedd yn nodweddiadol ohono. 'Diawl, diawl, diawl yn dallt!' meddai Jerry, gydag acen y plismon o'r Bala i'r dim. Roedd rhyw fath o chwerthiniad bach, direidus bob amser yn dilyn.

Roedd Jerry, fel mae plant bach, yn dueddol o ganolbwyntio ar y geiriau drwg i'w dynwared ac fel petai'n ymhyfrydu mewn rhegfeydd. Cafodd sawl ymwelydd gyngor ar 'ble i fynd i genhedlu' wrth ddod trwy ddrws yr ystafell.

'Faswn i ddim yn mynd yn rhy agos ato fe,' meddai Sarjant Amos.

'Pam?' holodd y plismon.

'Dyn wyt ti.'

'Be s'gen hynny i wneud â'r peth?' 'Ma fe'n iawn 'da menywod. So fe'n lico dynion. Mrs Emanuel wnaeth ei fagu e ers oedd e'n gyw bach. Mae pob menyw yn OK ond mae dynion yn fygythiad.'

'O,' meddai'r plismon ac ymbellhau ei drwyn o gyrhaeddiad y crafanc o big.

Wedi rhyw etifeddu'r aderyn oedd Wil Amos, gan mai ef oedd wedi bod yn gyfrifol am yr achos yn y llys. Y bwriad oedd ei drosglwyddo i gartref parotiaid, ond doedd dim sôn am fan y cwmni ac roedd hi'n wythnos ers iddo gysylltu â nhw, ond roedd Jerry yn ddigon hapus yn ei gawell ac fel petai'n mwynhau'r sylw a gai gan bob ymwelydd; er ei fod yn edrych yn go sinigaidd ar unrhyw un a fentra i ar: 'Who's a pretty boy then?'

Byddai symud i annedd lle roedd parotiaid eraill yn dipyn o sioc hefyd. Roedd Sarjant Amos wedi dod i'r casgliad bod Jerry yn ei ystyried ei hun yn un o'r ddynol ryw, yn bennaf gan mai dim ond pobol a welodd yn ei fyd bach e erioed, ac hefyd oherwydd ei feistrolaeth ar ddynwared. Byddai cwrdd â bodau o'r hil ornitholegol yn siŵr o fod yn dipyn o ysgytwad.

Roedd Jerry wedi dygymod â'i amgylchfyd newydd prysur. Roedd cyflenwad cyson o fwyd a dŵr. Mentrodd y sarjant ei ddenu o'i gawell un tro wedi cau'r ffenestri i gyd rhag ofn ond nid oedd dim yn tycio. Mynnai Jerry aros yn ei gell.

Roedd Jessica, plismones ifanc, yn hoff iawn o'r aderyn ac yn taro i mewn i'w weld yn feunyddiol a Jerry yn amlwg yn falch o'i gweld hithau. Fel arfer roedd ganddi gnau neu ddarn o afal i'w demtio.

'Agor y drws i weld os daw e mas i ti,' meddai Sarjant Amos un diwrnod. 'So fi'n lico ei weld e'n sdyc yn y caii 'na trwy'r amser. O'n nhw'n dweud bo fe'n mynd nôl yn ddigon hawdd wedi spin bant.'

Agorodd Jessica'r drws a chynnig ei bys i'r aderyn ac yn ufudd neidiodd Jerry yn ddigon heini ar ei braich cyn hedfan rownd yr ystafell rhyw ddwy waith a glanio ar ei hysgwydd fel parot Long John Silver. Cynigiodd y sarjant ei law i'r aderyn i weld a fyddai rhyw lygedyn o gyfeillgarwch yn gallu datblygu. Fel fflach pwysodd Jerry ymlaen a brathu ei law yn galed nes tynnu gwaed. 'Diawl bach!' meddai'r sarjant.

'Diawl bach, diawl bach, diawl bach! meddai Jerry gyda llais Wil Amos yn berffaith a sefyll yno ar ysgwydd Jessica yn dalog yn rhwlio ei ysgwyddau yn ymffrostgar.

'Rho'r diawl yn ôl yn ei gell, Jessica,' meddai'r Sarjant.

'Diawl yn ei gell,' meddai Jerry. Cododd hi'r aderyn ar ei llaw a'i osod yn ôl yn y cawell yn ddiffwdan.

Byddai Wil Amos yn ddigon balch o osod y cwrlid dros y cawell cyn gadael heno. Bron yn ddieithriad clywai lais benywaidd Laura Emanuel yn dod o dan len y cawell wedyn: 'Dos i grafu'r bastard!' a gwenai'r sarjant yn dawel wrth gau'r drws ar ei ôl ar ddiwedd y diwrnod fel arfer. Byddai'n falch o weld cefn yr aderyn ar ôl brathiad heddiw.

Bu Jerry yn dipyn o seren yn yr achos llys. Achos eitha trist, a dweud y gwir; un a gafodd gryn sylw ar y cyfryngau. Roedd pawb yn argyhoeddedig bod y rheithgor wedi dod i'r casgliad cywir fod Geraint Emanuel wedi llofruddio ei wraig Laura ac nad dynladdiad oedd wedi digwydd. Roedd pawb yn falch nad oedd plant yn y briodas gythryblus hon i fod yn gwmwl pellach i'r tristwch. Clywid yn yr achos fod yr aderyn wedi dod yn dipyn o blentyn maeth iddi, yn hawlio tipyn mwy o gariad a sylw nag a roddai hi i'w gŵr. Darganfuwyd hi gan yr heddlu ar lawr y lolfa wedi gwaedu i farwolaeth cyn i'r parafeddygon gyrraedd. Roedd y gyllell fara ar y llawr wrth ei hochr. Ei gŵr oedd wedi deialu 999 ac yn honni mai damwain yn sgîl ffrae oedd wedi digwydd.

Anghytunodd y rheithgor. Doedd neb yn amau nad oedd ffrae wedi bod. Doedd neb yn amau chwaith nad oedd Laura Emanuel yn fenyw od iawn ac yn hynod anodd i fyw gyda hi gyda chyflwr ei meddwl yn hynod anwadal. Roedd pawb serch hynny yn argyhoeddedig mai wedi colli ei dymer oedd Geraint ei gŵr, a'i thrywanu mewn dicter. Roedd ef wedi honni mai hi oedd wedi ei fygwth ef â'r gyllell a fod y trywanu wedi digwydd wrth iddo ymaflyd ynddi i geisio rhwygo'r gyllell o'i llaw.

Bu cryn dipyn o ddadlau yn ôl a blaen gan y ddau fargyfreithiwr gyda hyd yn oed ailbortredu'r ymaflyd a fu rhwng y cwpwl ar lawr y llys ond y 'clinshar' i'r rheithgor oedd Jerry. Tystiodd Sarjant Amos yn y llys iddo glywed yr aderyn yn sgrechian; 'Rho'r gyllell i lawr, rho'r gyllell i lawr!' yn groch, yn fuan wedi iddyn nhw gyrraedd lleoliad y gyflafan, ac roedd llais y parot yn bendant yn dynwared llais menyw. Bu tipyn o dynnu coes pan gyrhaeddodd y sarjant yn ôl i'r swyddfa gyda'r aderyn yn y gawell wedi bod i leoliad y drosedd. 'Witness Protection?' holodd un wag.

Daethpwyd â Jerry i'r llys yn llawn rhodres. Roedd fel petai yn mwynhau'r llwyfan newydd hwn, yn swagran ar ei glwydfan. Annogwyd ef i yngan y geiriau allweddol gan un o swyddogion y llys (i fod yn ddiuedd) a daeth y geiriau: 'rho'r gyllell i lawr, rho'r gyllell i lawr,' o safn yr aderyn. Tystiai pawb oedd yn ei hadnabod mai llais ac acen ddeheuol Laura Emanuel oedd e, yn bendant.

'Mae cynneddf yr aderyn i ddynwared yn ei wneud fel recordydd tâp yn gofnod byw o'r digwyddiad,' meddai Selwyn Hughes y bargyfreithiwr.

Cafwyd tystiolaeth gan arbenigwr adar gwledydd trofannol i gadarnhau mai dynwared yn unig oedd adar yn ei wneud a bod llais Laura Emanuel yn debygol o fod yn gyson â digwyddiadau yn y fflat. Ychwanegodd nad oedd dim sylwedd yn ynganiadau adar ac mai ond empathi sylfaenol allen nhw ei deimlo.

A dyna ni: Geraint Emanuel yn euog o lofruddiaeth. Diwrnod da o waith meddyliodd Sarjant Wil Amos ar ddiwedd yr achos.

Roedd galwad wedi dod oddi wrth yr elusen gwarchod parotiaid; bydden nhw yno yn y bore i fynd â Jerry i'w gartref newydd, cymharol rydd. 'Diolch byth,' meddyliodd y sarjant wrth roi'r gorchudd dros y cawell i Jerry fynd i glwydo. Fferrodd pan glywodd lais o du ôl y gorchudd, mor glir â'r dyn ei hun: Geraint Emanuel yn sgrechian 'Rho'r gyllell i lawr Laura,' â'i acen o Sir Ddinbych yn amlwg. Daeth y chwerthiniad bach yna wedyn.

Adnabod y Gân

Rob Evans

Pan dach chi'n clywed cerddoriaeth ar Radio Cymru mae gennych chi syniad go dda o bwy sy'n canu. Byddech chi'n adnabod Bryn Fôn, Elin Fflur ac, os dach chi'n ddigon hen, Edward H Dafis. Ond nid y fath yna o gerddoriaeth yw'r unig fath dach chi'n ei chlywed mewn diwrnod. Sut ydach chi efo caneuon yr adar? Os ydach chi fel fi fydddech chi ddim yn rhy dda. Gresyn nad oes DJ yna i gyflwyno, fel "A dyma, yn rhad ac am ddim, y robin goch i ganu 'Cheap, Cheap!'"

Rhestr go fyr yw'r caneuon adar dw i'n adnabod sef - ysguthan, pioden, y fwyalchen, sgrech y coed, brain a'r robin goch. Tydi hynny ddim yn ddigon da. Roedd Daniel Jenkins Jones yn arbennig ar y rhaglen Natur a Ni wrth gyflwyno cân aderyn bob wythnos ac esbonio sut i'w gofio. Er i mi drïo'n galed doedd hynny ddim yn gweithio i mi, yr unig un alla i gofio yw'r robin goch.



Ddoe pan oeddwn i wedi mynd am dro cyn i'r haul godi roeddwn yn clywed y robin goch ym mhob man, bron fel oedd yn fy nilyn i ar y daith. Y gwir oedd roedd llawer ohonyn nhw ond mi wnaeth wneud i mi feddwl. Tu ôl i gân y robin roedd llawer o ganeuon eraill. Tybed os dw i'n troi'r broblem wyneb i waered a chanolbwyntio ar un o'r caneuon eraill a thrio ei glywed mewn gwahanol lefydd yn ystod y daith? Gwneud yr un peth y tro nesaf, a'r nesaf am wythnos gyfan tan i mi fod yn hollol gyfarwydd â'r gân, wedyn chwilio am y canwr, bydd hynny'n ffordd well? Treulio wythnos neu ddwy i sicrhau mod i'n ddigon gyfarwydd, wedyn mynd am y nesaf. Petaswn i ddim ond yn dysgu pedwar newydd bob blwyddyn mi fydda i wrth fy modd!

Beth amdanoch chi? Os dach chi eisïau gwneud yr un peth ewch allan tuag awr cyn y wawr a chyn i sŵn y drafndiaeth ddechrau, a mwynhewch!

Mae teithiau Cymdeithas Edward Llwyd wedi ailddechrau ond, o achos y cyfyngiadau, dim ond i aelodau. Yn anffodus mae llawer o deithiau wedi cael eu gohirio o achos cyfyngiadau lleol. Edrychwn ymlaen am ddyddiau gwell i ni gyd.

Cyfeiriad ebost newydd y golygydd yw:
benamarycwmni@yahoo.com

PWYLLGOR a SWYDDOGION

Cadeirydd: Robert Dutt

Ysgrifennydd Cofnodion: Ann Lewis

Trysorydd: Eyron Thomas e.thomas119@btinternet.com

Golygydd: Ben Jones benamarycwmni@yahoo.com 02920 862428 07891916046

Ysgrifennydd: Marian Fairclough faircloughmarian@gmail.com 02920885151

Y Pwyllgor: Eirlys Thomas, Gareth W. Williams, Dilys Williams, **Cynorthwy-ydd:** Jan Penney

Hysbysebu: Bethan Ollerton Jones, Menter Iaith **Gweplyfr/ Facebook:**  Papur Bro Cwmni

Gwefan: Meter IaithSir Caerffili.cymru/ **Cwmni** 

e-bost: Golygydd@papurcwmni.cymru/ benamarycwmniyahoo.com

Cedwir yr hawl i gwtogi neu newid erthyglau neu luniau yn unol â gofynion golygyddol.



*Ariennir yn
rhannol gan
Lywodraeth
Cymru*

